

Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 152 Rhif 16 Ebrill 18, 2019 50c.



Cod a sglod

Diolch i bawb o Gyfundeb Penfro oedd yn y Swper Cod a Sglod yn ddiweddar. Fe gafodd pawb eu gwala a'u gweddill a llwyddwyd i godi £257 at Apêl Madagascar.



Anrhydeddu



Ar ddiwedd mis Mawrth fe dderbyniodd Rhys Lock dystysgrif arbennig gan Henry Gilbert, Uwch Siryf Gorllewin Morgannwg, oherwydd ei gyfraniad mawr i'r gymuned leol. Rhoddir yr anrhydedd hon i unigolion sy'n cael dylanwad da ar yr ardal y maent yn byw ynddi. Llongyfarchiadau calonnog i Rhys.

Iesu eto'n Fyw

Roeddwn yn trafod gyda ffrind yn ddiweddar beth oedd ei hoff emyn Pasg. Atebodd heb oedi, gan ddweud mai emyn mawr Thomas Jones, Dinbych oedd hwnnw sef,

Mi wn fod fy Mhrynwr yn fyw,
a'm prynodd â thaliad mor ddrud;
fe saif ar y ddaear, gwir yw,
yn niwedd holl oesoedd y byd.

Rhaid dweud ei fod yn emyn bendigedig sy'n mynegi'n hyderus orfoledd a gobaith y Cristion yn sgîl atgyfodiad Iesu. Mae geiriau agoriadol yr emyn yn seiliedig ar adnodau o lyfr Job pennod 19 ac adnod 25 a 26, cyfieithiad William Morgan sef:

Canys myfi a wn fod fy Mhrynwr yn fyw, ac y saif yn y diwedd ar y ddaear.
Ac er ar ôl fy nghroen i bryfed ddifetha'r corff hwn, eto caf weled Duw yn fy nghnawd.

Cymerwyd y geiriau hyn fel proffwydoliaeth am yr Arglwydd Iesu a'i fuddugoliaeth dros farwolaeth a'r addewid am atgyfodiad i'r rhai sy'n credu ynddo. Ond pam fod yr atgyfodiad mor bwysig i'r ffydd Gristnogol? Mae Paul yn mynd mor bell a dweud fel hyn, 'Ac os nad yw Crist wedi ei gyfodi, ofer yw eich ffydd, ac yn

eich pechodau yr ydych o hyd.' (1Co 15:17)

Dadl Paul yn y bennod ryfeddol hon o 1 Corinthiaid yw fod atgyfodiad Iesu yn gwbl allweddol i ddilysrwydd ein ffydd. Os na chyfododd Iesu, nid oes ffydd Gristnogol na gobaith. Mae'r atgyfodiad yn profi mai Iesu oedd mab Duw a bod y gwaith a gyflawnodd ar y groes yn effeithiol ac yn gyflawn. Mae'r Beibl yn ein dysgu mai canlyniad pechod yw marwolaeth. (Rhuf. 6: 23) Rhaid cofio nad cyfres o weithredoedd drwg yw pechod ond ein cyflwr. Mae pechod fel salwch y mae pawb ohonom yn dioddef ohono. Ni allwn ein hiachau ein hunain ohono ac y mae yn ein gwahanu oddi wrth Dduw. Dyma pam fod y Beibl yn cyfeirio at iachawdwriaeth pan gredwn yn Iesu. Yr unig un sy'n gallu ein gwella o'r salwch hwn yw Iesu y Meddyg Da. Roedd Iesu yn berffaith ac felly nid oedd rhaid iddo farw ond dewisodd o'i wirfodd, yn ei gariad tuag atom, i farw yn ein lle, er mwyn ein cymodi â Duw. Rhoddwyd ein pechodau ni arno ef, ac ar y groes bu farw ar ein rhan gan gymryd ei gosbi am ein hanufudd-dod ni. (Eseia 53: 5) Ond yna nid oedd gan farwolaeth hawl arno ac fe gyfododd Duw Ef. Trwy gredu ynddo, fe gawn ein hiachau o glefyd pechod a gallwn fyw mewn perthynas â Duw. Yn ychwanegol at hyn, mae Iesu yn Arglwydd byw heddiw, sydd gyda ni bob amser hyd ddiwedd y byd. O ganlyniad i waith

yr Iesu mae gennym fywyd ar ôl marolaeth.

Mae Sul y Pasg yn Sul o orfoledd a llawenydd digymysg, pryd y dathlwn yn hyderus fuddugoliaeth Iesu dros angau a theyrnas y tywyllwch a'i fod Ef heddiw yn teyrnasu. Nid oes newyddion godidocach na gwell na hwn ar gyfer dynolryw sy'n llawn goleuni a gobaith. Gall weddnewid unigolion a chymdeithas. Gorfoleddwn yn llawen a dilyffethair yn ein Harglwydd a'n Gwardwr Iesu gan ddiolch i Dduw amdano.

Yr Iesu atgyfododd
yn fore'r trydydd dydd;
'n ôl talu'n llwyr ein dyled
y Meichiau ddaeth yn rhydd:
cyhoedder heddiw'r newydd
i bob creadur byw,
er marw ar Galfaria
fod Iesu eto'n fyw.

Thomas Levi



YMWELIAD YSBRYDOLEDIG Â LLANUWCHLLYN

Yn Llanuwchllyn yr oeddem, ac yn yr ysgoldy. I'r sawl a wŷr, saif yr adeilad cartrefol, hardd hwn yng nghanol y pentref a phob hwylustod posib ynddo.

Cynhadledd

Do, bu cynhadledd, ond un fer iawn oedd hi – cwta hanner awr a dweud y gwir – sy'n dangos beth ellir ei wneud mewn amser byr. Ond nid at y gynhadledd y cyfeiriaf ...

Gŵr gwadd

Arwyr i sawl plentyn o'm cenhedlaeth i oedd y ddeuawd hynny, Syr Wynff ap Concord y Bós a Plwmsan, a'r slepjans bythgofiadwy. Nid Plwmsan a welwyd yn Llanuwchllyn, ac ni chafodd neb slepjan chwaith, ond fe gawsom ni anerchiad gwefreiddiol gan Syr Wynff ei hun, neu, Wynford Ellis Owen o'r Creigiau, Caerdydd, ac fe gafwyd araith ganddo oedd yn agor llygad a chalon y gwrandawyr.

Wedi iddo roi ei hanes personol yn fab i'r Parchedig a Mrs Robert Owen, Llansannan a Llanllyfni, ac yn frawd i Arwel a Rowena; ei waith fel actor, cynhyrhydd a sriptiwr, ei daith bersonol drwy alcoholiaeth, cyfeiriodd at gyfeiriad newydd a roed i'w fywyd sef ei waith yn yr Ystafell Fyw a chyda Cynnal.



Ystafell Fyw a Cynnal

Gwaith a chyfrifoldeb yr Ystafell Fyw yw cynorthwyo rhai sy'n ddibynnol ar alcohol a chyffuriau eraill. Sialens Cynnal yw, yn syml iawn, cynnal clerigwyr a gweinidogion sy'n mynd drwy'r profiad o iselder a themlo'n ynysig. Ac os ca' i ofod am fymryn o amser, carwn werthfawrogi'r ffaith bellach fod yna 'wasanaeth', os ca' i ddefnyddio'r gair yna, i helpu'r bobl sydd wedi'u galw i helpu eraill. Pe baem ni'n troi i'r Hen Destament ac i Lyfr Job, mi welwn ni'r union beth ag y mae Cynnal erbyn hyn yn ei wneud. Trowch i'r drydedd bennod a'r bedwaredd a'r bumed adnod lle gwelir un o ffrindiau agos Job, Eliffas y Temaniad yn troi ato pan oedd Job ei hun. Job cofiwch oedd wedi cynnal sawl un arall oedd mewn dyfnderoedd, ac yn ei annog: 'Wele, buost yn cynghori llawer ac yn nerthu'r llesg eu dwylo; cynhaliodd dy eiriau'r rhai sigledig, a chadarnhau'r gliniau gwan. Ond yn awr

daeth adfyd arnat ti, a chymeraist dramgwydd; cyffyrddodd a thi, ac yr wyt mewn helbul.'

Cyfrifoldeb a braint

Cyfrifoldeb pob clerigwr a gweinidog ydi cynnal unigolion a theuluoedd, yn enw Iesu, pan ddaw argyfyngau i'w rhan. Nid busnesu, nid doethinebu hyd yn oed, ond jest bod yn glust wrando a llygad i weld. Ac fel y gŵyr sawl un ohonom sydd wedi bod 'wrthi' ers blynyddoedd maith bellach, fe ddaw profiadau felly, oherwydd, yn syml iawn, dyna yw bywyd, ac ynghlwm wrth hynny, wrth gwrs, y cyfrinair yw 'cyfrinachedd'. Ni all offeiriad neu weinidog, fradychu'r ymddiriedaeth sanctaidd honno i neb, nid hyd yn oed i swyddogion eglwys pan fo ambell i swyddog am fynnu cael gwybod yn lle a pha bryd y bu'r gweinidog yn gweld hon-a-hon neu hwn-a-hwn ddiwethaf. A chredaf bod angen i rai o'n swyddogion eglwysig sylweddoli wrth geisio dangos mymryn o awdurdod fod gan weinidog neu offeiriad berthynas agos a chyfeillgar â'r aelodau. A'n braint ni fel gweinidogion ydi diogelu'r berthynas honno. Clywais ddweud gan unigolyn o eglwys arall yn gymharol ddiweddar am ei weinidog: 'Pan ddaw'r Parchedig (ei enw cyntaf a gefais i) yma, 'dan ni'n gwybod mai ffrind sy'n dod dros y trothwy, a ffrind y medrwn ni ddeud unrhywbeth wrtho.' O ddarllen rhwng llinellau, dwi ddim yn amau mai perthynas felly oedd gan bobl a ddaeth i gyswllt â Iesu Grist yn yr efengylau. A does dim *compliment* mwy na hynny yn y cyd-destun yma.

Ond ...

Beth am y gweinidog neu'r offeiriad sy'n cael ei hun mewn cyflwr a sefyllfa isel ei hun, beth bynnag y bo? Ydi'r gweinidog neu'r offeiriad y tu hwnt a thu draw i hynny? Ydi o neu hi yn anfeidrol? Nac ydi wrth reswm. O'r un deunydd y gwnaed pawb ohonom a'r un pechod sy'n ein hamgylchynu. Pan fûm i mewn cyflwr reit isel flynnyddoedd yn ôl (o do, mi fûm, sy'n sioc i rai ohonoch ddeall hynny o bosib), mi roedd 'na rai yn sylwi, a fedra i ddim diolch digon i ambell un, gan gynnwys Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ar y pryd, Geraint Tudur, am fod yn glust i wrando. Mae angen mwy a mwy o wasanaethau i helpu'r rhai sy'n mynd drwy argyfyngau tebyg.

Pe bae unhyw weinidog neu offeiriad yn dweud wrth ei aelodau, neu hyd-yn-oed ei swyddogion, ei bod hi'n argyfwng

arno/arni, mae na ambell i gwestiwn yn codi: (1) A fyddai'r gweinidog yn teimlo gormod o gywilydd i gydnabod hynny wrth ei bobl? (2) A fyddai'r gallu a'r wybodaeth gan y cyfryw bobl i wybod sut i helpu a beth i'w ddweud? Ochr arall y ddalen, wrth gwrs, yw a oes gan y gweinidog yr wybodaeth i ddelio â'i aelodau mewn sefyllfaedd fel hyn? Dyna pam y credaf yn gryf bellach y dylai pob darpar-weinidog neu offeiriad, ac hefyd y rhai sydd yn y Gwaith, gael hyfforddiant i'r cyfeiriad yma.

I grynhoi, gan y medrwn i fynd ymlaen ac ymlaen i ddadansoddi, y mae'n bwysig i ni sylweddoli bod gweindiogion ac offeiriad yn agored i bob math o afiechydon ac argyfyngau, fel eraill, a dyna pam bod gwasanaethau fel Cynnal erbyn hyn yn hynod, hynod, werthfawr, am un rheswm wrth gwrs ei fod yn croesi'r ffiniau enwadol. A chan bod yna gymaint ohonom erbyn hyn yn weinidogion ar fwy nag un enwad, y mae hwn i mi yn gallu bod yn wasanaeth y gall amryw droi ato.

Diolch i Wynford am ei ymweliad ysbrydoledig â Llanuwchllyn.

Iwan Llewelyn

Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

Diwrnod i Weinidogion y De

Festri Capel Bethania,
Tymbl Uchaf SA14 6ED

Dydd Mawrth, 30 Ebrill 2019

Coffi am 10.15

Sesiwn 1 (10.30–11.45):

'Pregethu'r Drindod' –

Agorir trafodaeth gan Parchg John

Gwilym Jones

Sesiwn 2 (12.00–1.15):

Darparu ar gyfer plant ac ieuentid
sydd ag anghenion arbennig

Ceri Jones (Prif Ymgynghorydd Cyngor
Rhondda Cynon Taf a diacon ym
Methel Caerffili)

Cinio cyn gadael

Edrychwn ymlaen at groesawu'r
gweinidogion i'r Tymbl Uchaf

Anfonwch e-bost at
undeb@annibynwyr.cymru
neu ffoniwch

Dŷ John Penri (01792-795888)
Erbyn 25 Ebrill i sicrhau eich cinio

SYLWER AR Y NEWID
YN Y DREFN A'R AMSER

Golygyddol

Pen y brynau

Yn yr oruwchystafell ar nos Sul y Pasg roedd disgyblion Iesu wedi dod at ei gilydd ac wedi cloi'r drysau yn dynn. Deuddydd ynghynt buont yn yr un ystafell yn dystion i ostyngeddrwydd anghymharol Iesu'n golchi eu traed, yn gwrando arno'n siarad yn eneiniedig am yr Ysbryd ac yn bwyta'n awchus o wledd y Pasg gyda'i gilydd. Ond nawr roedd pethau'n wahanol. Roeddent yn yr un lle, ond roedd y drysau wedi eu cloi a bariaw trymion, yn arwydd o'u siomedigaeth ddirfawr. Bu nifer ohonynt yng nghwmni'r Iesu yn gyson dros gyfnod o dair blynedd. Gydag Ef dysgasant lawer Dduw cariad a'i ewyllys, gwelsant wyrthiau rhyfeddol a gwrandawsant ar ddamhegion am natur teyrnas nefoedd a seriwyd hynny am byth ar eu cof. Ond nawr chwalwyd eu gobeithion ac roedd ofn yn eu calonnau, ofn y gymdeithas y tu allan. Ym marwolaeth Iesu, chwalwyd eu gobeithion ac ni allent weld unrhyw haul ar fryn. Roeddent yn disgwyl y diwedd.

Y Diwedd

Weithiau, rydym fel Cristnogion yn byw fel mai marwolaeth Iesu ar y groes oedd diwedd Ei hanes. Bu farw fel dim mwy na dyn da dros ei egwyddorion. Gan yr awdurdodau anghyfiawn a threisgar, teyrnas y tywyllwch a marwolaeth ddu ddofn oedd y geiriau olaf. Cyfarfyddwn gyda'n gilydd a chloi'r drysau gan amddiffyn ein hunain rhag y gymdeithas a'r bobl y tu allan. Telynegwn am yr hyn a

fu. Hiraethwn am y gorffennol a'i lwyddiant a'i lawenydd. Ond nid ymddengys bod gwir obaith yn ein deall a'n hymarweddiad. Disgwylwch yn ddagreuol am y diwedd.

Ymddangosodd

Ond yn hanes yr oruwchystafell ar y noson honno, i ganol yr ofn, y digalondid a'r anobaith, fe ymddangosodd yr Iesu byw er bod y drysau wedi eu cloi. Roedd ei ymddangosiad yn seinio buddugoliaeth dros bechod, marwolaeth a phwerau'r fall. Mae ei atgyfodiad yn seinio fod cariad Duw yn drech nac achasineb, Ei gyfiawnder yn drech nac anghyfiawnder a bod Iesu heddiw'n fyw a chyda ni yn rym achubol ac adnewyddol. Felly, fel Cristnogion mae gennym y newyddion godidocaf a phwysicaf i'w rannu gyda'n cyd-Gymry. Newyddion da fyddai, o greu ynddo, yn gweddnewid ein cenedl. A dyna'n union sydd angen i ni ei wneud.

Haul

Pan yng nghynhadledd Annibynwyr y Byd yn Stellenbosch, De Affrica yn 2016 roeddwn yn aros yn neuaddau'r Brifysgol. Y tu allan i ffenestr fy llofft roedd mynydd bychan. Safai yn dalsyth ysgythrog yng nghanol gwastadedd. Pob bore wrth iddi wawrio byddai pelydrau'r haul yn taro copa'r mynydd hwn yn gyntaf, cyn i weddill y wlad oleuo. Ymddangosai am ychydig fod copa'r mynydd ar dân. A dyna pryd y deallais eiriau Watcyn Wyn am y tro cyntaf:

Mae penf y brynau'n llawenhau
Wrth weld yr haul yn agosáu
A'r nos yn cilio draw.

Yn yr Iesu a'i waith achubol trwy'r groes a'r atgyfodiad mae haul tragwyddol yn tywynnu, gwawr newydd o fywyd a gobaith, llawenydd a goleuni sy'n erlid y cysgodion a'r tywyllwch. Byddwch lawen y Pasg hwn. Mae Iesu wedi atgyfodi. Mae haul ar fryn.

Alun Tudur

'Y Trydydd Un'

Fe godwyd tair croes ar Golgotha
I gadw'r hen drefn yn ei lle,
I anfon tri rebel i'w hateb,
Ac adfer ein heddwch i'r dre'.

Fe godwyd tair croes ar Golgotha
I hoelio dihirod i'r pren
A dweud nad yw terfysg yn talu,
I ddweud mai'r hen Beilat sy'n ben.

Fe godwyd tair croes ar Golgotha
I grogi tri dyn yn eu gwaed;
Dau leidr a 'Rex Iudaeorum',
Mae wyneb gan hwnnw, mae'n rhaid!

Ond eto, a rhegi'r ddau leidr
O'u hing yn ystaenio ein hedd,
Fe glywais y trydydd yn maddau o'r groes
I filwyr y fflangell a'r cledd.

Ac er 'mod i'n batrwm o Iddew
Rhoes hefyd faddeuant i fi!
Haerllugrwydd, ac yntau'n ei angau a'i faw
Ar ben y tip sbwriel fel ci!

Ond bellach mae Peilat yn gwenu
A genau haerllugrwydd yn fod
Y groes ar Golgotha a dorrodd ei gorff,
A charthwyd maddeuant o'r byd ...

CYFLWYNO APÊL MADAGASCAR I GYFUNDEB LLUNDAIN

Cafwyd pwyllgor gwaith buddiol dan gadeiryddiaeth y Parchg Rob Nicholls yng Nghapel y Boro' ar 16 Chwefror. Roeddem yn hynod falch o gael ein trysorydd y Parchg Gwylfa Evans yn ein plith ar ôl ei ddamwain frawychus ym mis Medi. Diolchwyd iddo am ei fantolen gynhwysfawr a chytunwyd ein bod fel Cyfundeb yn danfon cyfraniad at Apêl Madagascar.

Siaradwr gwadd

Yn dilyn y pwyllgor gwaith croesawyd aelodau eraill o'r Cyfundeb i gyfarfod y pnawn. Agorwyd trwy weddi, gan y Parchg



Rob Nicholls a darlleniad gan y Parchg Gwylfa Evans. Cyflwynwyd ein siaradwr gwadd, y Parchg Robin Samuel gan Rob Nicholls wrth ei groesawu i'n plith unwaith yn rhagor. Rydym wedi cael cwmni Robin sawl gwaith yn y Cyfundeb, nid yn unig fel pregethwr ar y Sul ond hefyd yn rhinwedd ei swydd dros Gymorth Cristnogol ac fel Swyddog Cyswllt yr Undeb.

Taith i Fadagascar

Tro hyn, dod atom i sôn am ei amser ym Madagascar ac am amcanion Apêl Madagascar

oedd ei bwnc. Rydym yn ymwybodol trwy'r Tyst yn bennaf o'r hyn y mae Robin wedi ei weld ym Madagascar, ond roedd clywed yn uniongyrchol amdanynt yn rhoi gwedd ddealladwy a byw i ni. Mae clywed

a deall am y sefyllfaoedd sy'n wynebu ein brodyr a chwiorydd yn y wlad sydd â chysylltiad mor agos â Chymru oddi wrth rhywun sydd wedi eu gweld yn fodd i ni wneud ymdrech deg i ymateb i'r pêl. Da deall bod y pedair Eglwys o fewn y Cyfundeb wedi dechrau ar y gwaith o gefnogi'r Apêl.

Pecyn apêl

Oherwydd diffyg deall technoleg fodern rhwng cyfrifiadur a'r sgrin deledu nid oedd yn bosibl i ni weld lluniau Robin! Ond mae gwybodaeth a manylion i'w cael yn y pecyn Apêl Madagascar. Ac wedi gwrando a'r Robin ymlaen fo'n nod i barhau i gefnogi'r apêl bwysig hon. Cofiwch am arwyddair yr apêl, y goeden Boabab 'BYWYD I BAWB' ac awn ati i wneud ein gorau i gadarnhau hynny. Diolchwyd yn gynnes iawn i Robin am ddod atom a daeth y cyfarfod i ben drwy ganu emyn a gweddi gan Miss Eiri Arfon, arweinydd y Boro'. Cafwyd cyfle wedyn i gael sgwrsio a holi dros y lluniaeth blasus a baratowyd i ni gan gyfeillion y Boro' – diolch i'r Boro' am y croeso.

Mair Jones

Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:

Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
Ffôn: 02920 490582
E-bost: aluntudur@btinternet.com

Golygyddion

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
Ffôn: 01766 513138
E-bost: IwanLew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
Ffôn: 01267 232577 /
0781 751 9039
E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:

Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
Ffôn: 01792 795888
E-bost: undeb@annibynwyr.cymru

Dalier Sylw!

Cyhoeddir y Pedair Tudalen
Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r
Pedair Tudalen ac nid gan Undeb yr
Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a
wneio Golygyddion Y Tyst ddim â
chynnwys y Pedair Tudalen.

Blasusfwyd



Fel rhan o ymdrech yr eglwys er budd Apêl Madagascar bu Cymdeithas Chwiorydd Eglwys Harrow yn mwynhau noson o fwyd o'r wlad. Ar y fwydlen yr oedd Malgagasy Romazava, Ffrwyth Madagascar gyda chrempog a hufen a theisen casava gyda the neu goffi.

Penderfyniadau

Cyfarfodydd Blynyddol 2019

Os oes cyfundebau, eglwysi neu aelodau personol o'r Undeb sy'n dymuno cyflwyno penderfyniad i Gynhadledd y Cyfarfodydd Blynyddol yn Rhyd-y-main ym mis Mehefin, mae gofyn i gopi o'r penderfyniad, wedi ei lofnodi gan y cynigydd a'r eilydd, gyrraedd Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc Busnes Glanrafon, Bro Abertawe, Abertawe SA7 0AJ, erbyn dydd Gwener, 26 Ebrill 2019, os gwelwch yn dda.

Dyfrig Rees
Ysgrifennydd Cyffredinol

Dilyn Llinyn 2

Mynwent yr Esgyrn

Roedd Azariah Shadrach (1774–1844) oedd yn wreiddiol o Garndeifo-fach, Llanfair Nant y Gof, Sir Benfro yn dipyn o gymeriad. Gŵr ydoedd a garai ei Waredwr ac a oedd yn llawn brwdfrydedd i rannu'r newyddion da gyda'i gyd-ddyn. Efenglydd oedd, wrth reddf, ymhlith nifer o rai eraill yn ei gyfnod a bregethai yn aml yn yr awyr agored, a wynebai erledigaeth yn gyson ac a blannodd eglwysi (Effesiaid 4: 11). Roedd rhywbeth amrwd enillgar, gwerinol ac agos at y pridd yn nodweddiad ohono. Caf yr argraff nad oedd cwrtseisi a lledneisrwydd yn flaenoriaeth i'r criw yma ar ddechrau'r 19eg ganrif, cyn cyfnod y parchuso Fictorianaid yn ddiweddarach. Plannwyd eglwysi gan Azariah yn Nyffryn Conwy, Tal-y-bont ac Aberystwyth gan gynnwys Seion, Stryd y Popty. Heddiw rydym angen i'r Arglwydd ddarparu merched a dynion tebyg i A. Shadrach, Cristnogion gwydn, blaengar ac enillgar sy'n gallu Efengylu'n effeithiol ymhlith y di-gred a'r di-hid.

Bone Hill

Roeddwn yn darllen y cofiant bychan am Azariah a ysgrifennwyd gan Josiah Jones (1830–1915). Bu Josiah am gyfnod yn weinidog ar eglwys Y Graig, Machynlleth. Roedd ei wraig yn or-wyres i Williams, Pantycelyn, ac ef oedd Ysgrifennydd cyntaf Undeb yr Annibynwyr ym 1872. Yn y cofiant fe adroddir hanes rhyfedd am Azariah yn ymweld â mynwent Bunhill

Fields (Bone Hill oedd yr enw gwreiddiol) yn Llundain pan ar daith bregethu i godi arian

tuag at ddyled adeiladu capel yn Aberystwyth. Fe aeth i eistedd yn y fynwent ar yr un pryd ac yr oedd gŵr yn cael ei ordeinio yn weinidog ar eglwys rhywle yng Nghymru. Roedd Azariah yn anghymeradwyo'n fawr fod y gŵr ifanc yn mynd yn fugail ar yr eglwys. Gadawaf i Josiah Jones adrodd ymhellach, 'Ond erbyn deg o'r gloch, amser yr oedfa urddiadol, yr oedd wedi ymdynnu at hen gladdfa glodfawr Bunhill Fields. Aeth i mewn, ac eisteddodd ar feddfaen ei hen frawd a'i ragflaenor urddasol, John Bunyan. Tra yn eistedd yma, bwytaodd ei damaid, ac arosod yno hyd nes oedd yn barnu fod oedfa yr urddiad yng Nghymru drosodd. Ac wedi eistedd ar feddfaen arch-freuddwydiwr y byd am gymaint o amser, nid rhyfedd iddo yntau ddechrau breuddwydio.' (tud. 76)

John Bunyan

Felly, pan oeddwn ar ymweliad â Llundain yn ddiweddar penderfynais y byddwn yn mynd i weld mynwent Bunhill gyda'm llygaid fy hun. Yr union leoliad lle y bu Azariah yn eistedd yn ddigon diridano ar fedd John Bunyan yn bwyta bara a chaws. Mae mynwent Bunhill yn enwog fel mynwent yr Anghydfurfwyr yn Llundain. Dalais y tanddaerol o orsaf Earl's Court, lle roeddem yn aros, gan deithio ar gletrau'r Piccadilly las

i King's Cross. Yno, dal y Northern ddu gan ddod i ffwrdd yng ngorsaf Old Street.

Mae Bunhill rhyw chwarter milltir o'r orsaf hon. Wrth ddynesu at y fynwent roedd capel a thŷ urddasol ar y llaw chwith. Oedais a darllen bwrdd gwybodaeth oedd wrth law. Hwn oedd cartref y diwygiwr Methodistaidd, John Wesley, pan oedd yn Llundain ac yma bellach y mae Amgueddfa Methodistaeth. Gellir cael rhagor o fanylion ar eu gwefan www.wesleysheritage.org.uk.

Ymlaen wedyn i fynwent Bunhill Fields. Teimlwn angenheidrwydd fel pererin i fynd yn syth at fedd John Bunyan, sy'n lled ganolog yn y fynwent. Roeddwn am dalu gwrogaeth i John Bunyan ei hun. Ac wrth gwrs, cofio fod Azariah Shadrach wedi bwyta ei ginio yno. Ymatalais rhag y demtasiwn i orwedd ar y bedyddfaen fel y gwnaeth yr hen frawd i fwyta byrbryd. Ond roedd llawer eto i'w weld yn y fynwent arbennig hon. Fe ddeuwn yn ôl, maes o law, i edrych ar ragor o feddau yn yr erthygl nesaf.

